

Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis Cymru

Datblygu a Gwella Gwasanaethau

Cyfes Un: Dysgu a Datblygu'r Gweithlu



Grŵp Llywio Cenedlaethol Ymyrraeth
Gynnar mewn Seicosis



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cynnwys

Gwelliant Cymru yw'r gwasanaeth gwella ar gyfer GIG Cymru. Ein nod yw cefnogi creu system iechyd a gofal o'r ansawdd gorau i Gymru fel bod gan bawb fynediad at ofal diogel, effeithiol ac effeithlon yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn..

Cyflwyniad	2
Negeseuon Allweddol	4
Beth yw Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar Mewn Seicosis (EIP)?	5
Y Sefyllfa Bresennol yng Nghymru	6
Datblygu Gweithlu Blaengare	9
Dysgu a Datblygu'r Gweithlu	11
Cyfeiriad i'r Dyfodol yng Nghymru	13
Atodiadau	15
Cyfeiriadau a Chydnabyddiaethau	19

Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis

Cyflwyniad

Mae rhwydwaith Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis (EIP) yng Nghymru wedi ymrwymo i ddatblygu ei weithlu a gwella gwasanaethau, gan nodi ymrwymiadau allweddol ym mhapur sefyllfa 2022 'Buddsoddi yn y Genhedlaeth Nesaf: Beth sydd angen ei newid ar gyfer pobl sydd â seicosis cynnar sy'n byw yng Nghymru.' (1).


Cefnogir datblygiad gwasanaethau EIP a'r gweithlu drwy ddadansoddiad lleol o ddemograffeg y boblogaeth (atodiad 1), ymgysylltu â rhaglenni gwella ansawdd gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, cymryd rhan yn yr Archwiliad Clinigol Cenedlaethol o Seicosis (NCAP), creu safonau lleol a chenedlaethol, matrices aeddfedrwydd a adolygir yn rheolaidd (atodiad 3) a chynlluniau gweithredu.

Mae buddsoddi yng ngweithlu EIP yn elfen hanfodol o welliant parhaus darpariaeth EIP yng Nghymru ac fe'i hystyrir yn gam gweithredu allweddol ar gyfer pob rhanbarth.

Mae grŵp llywio cenedlaethol EIP yn cael ei hwyluso gan Gwelliant Cymru, gyda'r rhaglen yn hyrwyddo datblygiad modelau gofal cenedlaethol ac yn cefnogi arfer gorau sy'n dod i'r amlwg. Mae pwyslais cryf ar y gweithlu sy'n datblygu, gan gynnig amgylchedd dysgu cefnogol i glinigwyr rannu profiadau ar draws rhanbarthau.

Bydd y papur hwn yn trafod tirwedd bresennol y gweithlu EIP yng Nghymru, yr heriau a'r cyfeiriad i'r dyfodol. Defnyddir y term 'clinigydd EIP' drwyddi draw i gyfeirio at bob gweithiwr proffesiynol wrth ystyried pwyntiau trafod ehangach. Cyfeirir at grwpiau proffesiynol penodol a staff asiantaethau partner lle bo angen.

Early Intervention in Psychosis



Rhaid i weithlu EIP fod yn ymatebol i anghenion clinigol unigolion â seicosis ac adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru



Mae mynediad at driniaeth effeithiol gyflym yn arwain at ganlyniadau iechyd corfforol gwell a llai o alw ar wasanaethau eraill



Mae darparu therapiâu seicolegol a argymhellir gan NICE yn gysylltiedig â chostau cleifion mewnol is yn ystod y therapi, a gwelliannau mewn ansawdd bywyd ar ôl therapi (5)

Negeseuon Allweddol

Gall seicosis, a ddiffinnir yn aml fel colli cysylltiad â realiti, gynnwys clywed neu weld pethau nad ydynt yno neu arddel credoau anarferol. Gellir ei brofi fel un digwyddiad, ond pan gaiff ei adael heb ei drin gall arwain at salwch hirdymor ac anabledl.

Pan fydd rhywun yn cael ymyrraeth gynnar, mae eu gobaith o wella yn sylweddol well yn alwedigaethol ac yn gymdeithasol. Mae oedi o fwy na chwe mis yn lleihau ei siawns yn sylweddol (2).

Disgrifir yr angen i ddarparu gwasanaethau EIP yng Nghymru yn y Strategaeth Law yn Llaw at lechyd Meddwl (2012) a phob cynllun cyflawni dilynol (3). Er y bu datblygiadau sylweddol dros y deng mlynedd diwethaf gyda phob gwasanaeth bellach yn wasanaeth newydd ei sefydlu o leiaf, ni allant ddangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth â safonau a ddisgrifiwyd gan yr Archwiliad Clinigol Cenedlaethol o Seicosis (NCAP) a dderbynnir fel y meincnod ar gyfer darparu arfer amserol ac effeithiol.

Nodweddir gwasanaethau EIP gan ethos cryf o obaith ac ymrwymiad tîm cyfan i alluogi adferiad. Yng Nghymru, mae'r gwasanaethau'n gweithio gyda phobl rhwng 14 a 35 oed ac mae cymorth fel arfer yn digwydd am uchafswm o 3 blynedd.

Nod craidd gwasanaeth EIP yw lleihau hyd seicosis heb ei drin (DUP) trwy gynnig asesiad amserol a chynhyrchu canlyniadau effeithiol o ran cyfraddau adferiad a chael ail byliau o salwch.

Mae gwasanaeth EIP o ansawdd uchel yn cynnwys model annibynnol sy'n cynnwys ymagwedd amlddisgyblaethol ac sy'n darparu ystod lawn o ymyriadau ffarmacolegol, seicolegol, cymdeithasol, galwedigaethol ac addysgol. Mae gwasanaethau'n sicrhau bod anghenion emosiynol a llesiant teuluoedd a gofalwyr yn cael eu hystyried a'u diwallu.

Mae amcangyfrif o'r achosion lleol o seicosis wedi'u pennu yng Nghymru a dylai'r data hwn fod yn sail i gomisiynu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion poblogaethau lleol (atodiad 1).

Mae'r tablau tystiolaeth ar gyfer Matrics Cymru a Matrics Plant, canllawiau cenedlaethol ar gyfer ymyriadau seicolegol yn disgrifio'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen ar gyfer y cyfnod cyntaf o seicosis (8).

Mae elfennau allweddol cyfathrebu effeithiol, dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a llwybrau cyson a gefnogir gan weithlu ymroddedig a medrus yn cyfrannu at sicrhau'r diogelwch mwyaf posibl i gleifion a darparu gofal o ansawdd uchel.



Beth yw Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar Mewn Seicosis (EIP)?

Gwasanaethau EIP yw'r model gorau ar gyfer cynnig ymyrraeth gyson i bobl ifanc sydd â seicosis cynnar. Maent yn cynnig dull cyfannol a ddylai gynnwys cymorth gan ystod eang o weithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys seiciatryddion, seicolegwyr, nyrsys iechyd meddwl cymunedol, gweithwyr cymorth, therapyddion galwedigaethol a mentoriaid cymheiriaid (4).

Mae grŵp llywio cenedlaethol EIP wedi bod yn gweithio i bennu llinell sylfaen yn erbyn safonau cenedlaethol. Cyllid cyfyngedig sydd gan y mwyafrif o fyrdau iechyd yng Nghymru wedi'i ddyrannu i EIP a lle mae cyllid cenedlaethol wedi'i ddefnyddio, ar hyn o bryd nid yw'n bodloni'r gofynion er mwyn cael effaith ystyrllon ar lesiant ac adferiad unigolion yn y dyfodol.

Mae gwasanaeth EIP 'safon aur' yn gweithredu fel model ar ei ben ei hun gyda llwybrau clir ac yn darparu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r dull hefyd yn hyrwyddo hunaniaeth tîm fel gwasanaeth EIP ar wahân i dimau iechyd meddwl cymunedol eraill, yn lleihau arwahanrwydd staff ac yn sicrhau mynediad cyflym i driniaethau arbenigol. Model gwasanaeth annibynnol yw'r dull mwyaf cost-ffeithiol o ddarparu gwasanaethau ar gyfer EIP (5).



Y Sefyllfa Bresennol yng Nghymru

Mae nifer o wasanaethau EIP yng Nghymru yn wynebu rhwystrau o ran asesu a darparu gofal o ddydd i ddydd. Mewn rhai ardaloedd, mae mynediad i fannau diogel ac addas i gwrdd â phobl ifanc a'u teuluoedd a'u gofawyr yn gyfyngedig oherwydd diffyg gofod clinigol dynodedig ar gyfer timau.

Rhaid i fuddsoddiad mewn seilwaith alluogi staff i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol; mae hyn yn cynnwys hanfodion adeiladau hygyrch ac yn cynnwys arloesedd digidol sy'n cefnogi ymarfer clinigol ond sy'n cyfrannu at gyfathrebu tîm a chreu hunaniaeth gwasanaeth hefyd.

Mae gwasanaethau EIP yn dal i fod yn gymharol newydd yng Nghymru o'i gymharu â systemau ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Mae recriwtio clinigwyr sydd â phrofiad ym maes ymyriadau seicolegol yn her ac yn fwy felly mynediad cyfyngedig at glinigwyr cymwys sydd mewn sefyllfa i oruchwylio staff llai profiadol. Mae mynediad cyfyngedig at hyfforddiant yn achosi oedi pellach wrth sefydlu gwasanaethau EIP yng Nghymru a all ddarparu ymyriadau seicolegol ar sail tystiolaeth.



Mae hunaniaeth gwasanaeth a rennir yn rhoi ymdeimlad o berthyn i unigolion, yn creu diwylliant cadarnhaol yn y gweithle, yn darparu cefnogaeth hanfodol gan gymheiriaid ac yn gwella canlyniadau clinigol i gleifion



Dyheadau gwasanaeth EIP yng Nghymru

Nodweddion Craidd:

- Canfod yn gynnar
- Mesur a gostyngiad yn hyd seicosis heb ei drin (DUP)
- Mynediad cyflym at asesiad, gofal a thriniaeth arbenigol
- Staff dynodedig, hyfforddedig ▪ Gweithio gydag ansicrwydd diagnostig
- Canolbwyntio ar adferiad
- Allgymorth pendant
- Llwyth achosion isel
- Gofal wedi'i gynllunio a'i ddarparu yn unol ag anghenion unigol
- Canolbwyntio ar y teulu
- Cynwysoldeb (yn sensitif i ddatblygiad a diwylliant)
- Ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Optimistiaeth
- Gwasanaeth wedi'i gyd-ddylunio

Elfennau Galluogi:

- haglen Waith EIP Genedlaethol
- Hunaniaeth gref fel gweithlu EIP
- Gweithlu ymroddedig ac angerddol
- Gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau'r 3ydd sector
- Ymgysylltiad a gweithgaredd sy'n gyfeillgar i bobl ifanc
- Dysgu a datblygu rhyngbroffesiynol
- Cyflenwi gwasanaethau pwrpasol wedi'i siapio gan ddemograffeg a daearyddiaeth leol
- Ymgysylltu â'r gymuned leol
- Ymrwymiad i ddarparu ymyriadau bioseicogymdeithasol, cymorth i deuluoedd a gofalwyr, rhaglenni iechyd corfforol, mesur canlyniadau, cymorth gydag addysg/hyfforddiant, rhaglenni therapi antur
- Ymrwymiad i fesur gwellian

Gwerthoedd:

- Cydweithio
- Ymgysylltiad
- Gobraith
- Grymuso
- Galluogi
- Canolbwyntio ar yr unigolyn
- Gwella bywydau
- Annibyniaeth
- Parch
- Adferiad

Yng Nghymru, mae gwasanaeth EIP dynodedig gan bob un o'r saith bwrdd iechyd, ond mae amrywiaeth rhwng gwasanaethau o ran yr hyn y gallant ei gynnis o ran capasiti, cymysgedd sgiliau, adnoddau ac ystod oedran. Er bod pob un yn cydgysylltu gofal ac yn gweithio yn unol â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (6), ond oherwydd diffyg adnoddau mae angen i rai ohonynt ddarparu mewnbwn meddygol a/neu seicolegol drwy Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol (TIMC) neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed generig (CAMHS) yn hytrach na'i ddarparu'n fewnol.

Mae angen symud tuag at gydraddoldeb ar draws y rhanbarthau a darpariaeth gwasanaethau gan fod llawer o wasanaethau EIP yn ei chael hi'n anodd cyrraedd y safonau a darparu ymyriadau a argymhellir gan NICE sy'n diwallu anghenion y grŵp cleientiaid hwn orau.

Mae gwasanaethau EIP yn dimau arbenigol sy'n cefnogi unigolion ar draws yr ystod oedran, gan bontio CAMHS a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion (AMHS). Mae'n hanfodol bod gan glinigwyr EIP fynediad at adnoddau priodol a meddu ar arbenigedd mewn gweithio gyda phlant yn ogystal ag oedolion. Mae angen trefniadau lleol cadarn rhwng CAMHS ac EIP mewn ardaloedd a wasanaethir gan wasanaethau EIP nad ydynt ar hyn o bryd yn darparu rôl cydgysylltu gofal i rai dan 18 oed.

Fel rhwydwaith yng Nghymru, mae gwasanaethau a chlinigwyr yn ymdrechu i wella a datblygu. Mae hunaniaeth gref ymhlith y gweithlu ac ymrwymiad i ymgysylltu â chyfleoedd, defnyddio adnoddau'n greadigol, meddwl 'y tu allan i'r bocsi', cefnogi ei gilydd ar draws ffiniau byrddau iechyd a datblygu sgiliau wrth gadw at gywirdeb y model EIP a chadw ffocws ar brofiad ac adferiad y bobl ifanc y maent yn eu cefnogi.




Safbwynt aelod o staff:

Mae cael grŵp o glinigwyr EIP y gallwn gael mynediad iddynt ar draws byrddau iechyd yn ased gwirioneddol. Rydyn ni'n dod at ein gilydd bob ychydig wythnosau ac yn dysgu cymaint oddi wrth ein gilydd a sut y gallwn ni wella ein gwasanaethau a'r gofal rydyn ni'n ei gynnis. Mae gennym ni grŵp cefnogol iawn o weithwyr proffesiynol EIP yng Nghymru.



Datblygu Gweithlu Blaengar

Mae dull ffrwd waith o fewn y rhaglen genedlaethol yn archwilio ffyrdd newydd o weithio a chreu adnoddau a mentrau cenedlaethol wedi'u cyd-gynhyrchu sy'n cefnogi datblygiad gweithlu blaengar sy'n darparu gofal o ansawdd uchel. Mae gwasanaethau EIP yng Nghymru yn ymfalchïo mewn bod yn greadigol o ran eu dull o ddatblygu gwasanaethau yn ogystal ag ymgysylltu â phobl ifanc, er enghraifft defnyddio amgylchedd naturiol Cymru i gyflwyno rhaglen therapi antur genedlaethol.



Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru

Mae Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru yn cynnig proses systematig, y gellir ei hailadrodd sy'n addasu i anghenion penodol pob cyd-destun rhanbarthol ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu, profi a rhannu syniadau. Mae'n ceisio cefnogi sefydliadau a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i lywio'r camau mabwysiadu yn y camau cynnar hanfodol drwy

alluogi profi a chyd-gynhyrchu gwelliannau. Gall rhanbarthau ddefnyddio'r fframwaith i alluogi ffocws ar gynllunio, ymgysylltu, profi a lledaenu a maint gwelliannau, gan geisio adeiladu gallu gwella mwy effeithiol ar draws y system sy'n integreiddio â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Mae gan weithlu EIP fynediad at hyfforddiant ac adnoddau i arfogi timau â gwybodaeth a chymorth i ddefnyddio methodolegau gwella ansawdd wrth ddatblygu a gwerthuso gwasanaethau EIP yng Nghymru.

Ochr yn ochr â'r model EIP traddodiadol mae cyfle i fod yn ddychmygus o ran sut mae gwasanaethau'n symud ymlaen oherwydd bod y rhan fwyaf o wasanaethau yng Nghymru yng nghyfnod cynnar eu datblygiad ar hyn o bryd. Mae sgysiau ynghylch integreiddio rolau fel gweithwyr ieuenctid, staff cymorth cyffuriau ac alcohol ac arbenigwyr addysg i gyd yn uchel ar yr agenda wrth drafod cynlluniau'r gweithlu. Mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion sydd â phrofiad o fyw a chyflogi mentoriaid cymheiriaid wedi dod yn realiti mewn nifer fach o wasanaethau Cymraeg ac mae wedi gwella darpariaeth gwasanaeth.

Mae gwasanaethau EIP yng Nghymru wedi'u partneru â sefydliadau trydydd sector fel Adferiad, Barnardo's a MIND Cymru. Trwy gynnig dull integredig, mae gwasanaethau'r trydydd sector yn ategu ymyriadau clinigol a gynigir gan y tîm gofal iechyd ac yn cynnal cysylltiadau cymunedol a mynediad at ffrydiau ariannu ychwanegol na fyddai fel arall yn agored i wasanaethau EIP. Mae adborth pobl ifanc yn dangos bod gwerth y bartneriaeth hon yn ymestyn i'w profiad o ofal.

Mae angen ystod o arbenigedd a gwybodaeth ar glinigwyr EIP sy'n berthnasol i'w rôl o fewn y tîm a'r proffesiwn. Un o rolau allweddol gwasanaethau EIP yw hybu iechyd a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau a llwybrau seicosis er mwyn sicrhau bod achosion yn cael eu cyfeirio'n briodol ac yn amserol. Gall methu ag adnabod ymddangosiad cyfnod cyntaf o seicosis ymestyn hyd seicosis heb ei drin (DUP) a bod â goblygiadau o ran profiad a chanlyniadau unigolion. Felly, mae datblygu cysylltiadau â sefydliadau partner a chymunedau lleol yn hanfodol o ran cyfrannu at symleiddio llwybrau i sicrhau bod unigolion yn cyrraedd gwasanaethau EIP arbenigol yn gyflym. Mae angen i wasanaethau fod yn **'gysylltiedig â chymunedau'** gyda'r rôl o adeiladu perthynas a hyrwyddo gwasanaethau yn disgyn ar bob aelod o wasanaeth EIP, nid dim ond yr arweinydd tîm.

Ochr yn ochr â chlinigwyr, mae angen cymorth gweinyddol digonol ac arweiniad ar

wasanaethau EIP, a chaiff y ddau ohonynt eu hystyried wrth gyfrifo'r gweithlu (atodiad 2). Mae daearyddiaeth Cymru, gyda'i rhanbarthau trefol yn y De-ddwyrain a'i hardaloedd mwy gwledig, gwasgaredig eu poblogaeth i'r Canolbarth a'r Gorllewin yn gofyn am benderfyniadau lleol ynghylch capasiti a gallu.

Yr argymhelliad yw y dylai clinigwyr EIP gael llwythi achosion wedi'u capio ar 15 er mwyn caniatáu gofal hyblyg a chynhwysfawr wedi'i deilwra (7). Fodd bynnag, mae angen i wasanaethau sydd ag ychydig o staff a dim swyddogaeth amlddisgyblaethol mewn ardal ddaearyddol fawr ystyried y ffactorau hyn wrth ddilyn canllawiau er mwyn sicrhau bod clinigwyr yn gallu rheoli eu llwyth gwaith, nad ydynt yn ynysig, ac nad oes effaith negyddol ar ofal cleifion.



Safbwynt person ifanc:

Dydw i ddim yn gwybod ble byddwn i heb y tîm, mae cael staff gwahanol gyda rolau gwahanol yn help mawr gan fy mod i'n gwybod at bwy i gysylltu ac am beth. Mae'n dda cael cymysgedd o bobl yn fy helpu i i wella ac rwy'n hoffi fy mod i'n cael gwneud pethau yn y gymuned yn lle mynd i'r clinig drwy'r amser..

Safbwynt Mentor Cymheiriaid:

Fel mentoriaid cymheiriaid rydyn ni'n gallu ffurfio cysylltiad ar unwaith a pherthynas gref â defnyddwyr gwasanaeth trwy rannu rhywfaint o'u profiadau bywyd. Mae hyn yn gallu chwalu'r rhwystrau a achosir gan ddeinamg pŵer "gweithiwr proffesiynol-claf", a chreu catalydd ar gyfer twf, iachâd ac adferiad yn y defnyddiwr gwasanaeth..



Dysgu a Datblygu'r Gweithlu

Mae ymgysylltu, asesu a darparu ymyrraeth i bobl ifanc sydd wedi profi achos cyntaf o seicosis a chefnogi teuluoedd a gofawyr yn gofyn am set o sgiliau penodol. Mae datblygiad clinigol a phroffesiynol parhaus felly yn rhan annatod o EIP yng Nghymru.

Mae amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth yn cael eu cydnabod a'u gwella trwy hyfforddiant ac addysg a ddarperir i glinigwyr trwy raglen ddysgu a datblygu EIP sy'n esblygu yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i

- Asesu e.e. CAARMS
- Mesur canlyniad e.e. DIALOG+
- Asesu iechyd corfforol a sgiliau ymyrryd
- Therapi Teulu Ymddygiadol
- Gwaith Gwybodus am Drawma
- Cyflwyniadau niwroddatblygiadol
- Arfer myfyriol
- Deall data a defnyddio mesuriadau ar gyfer gwelliant
- Methodoleg gwella ansawdd
- Cymhwysedd diwylliannol
- Cydgynhyrchu a chydweithio ym maes gofal iechyd

Mae cyfarfodydd rheolaidd grŵp llywio cenedlaethol Cymru gyfan yn darparu lle ar gyfer sesiynau dysgu 'bach' yn ogystal â chyfle i ddathlu darnau llwyddiannus o waith a thrafodaeth ehangach am yr heriau y mae gwasanaethau'n eu hwynebu. Mae clinigwyr yn gwerthfawrogi cyfathrebu ar draws gwasanaethau er mwyn galluogi dysgu ar y cyd ac maent yn cefnogi rhagor o gyfleon i drafod enghreifftiau o arfer presennol ac yn y dyfodol yn erbyn safonau trwy raglen ffrwd waith sy'n cynnal gweithgorau llai â ffocws.

Mae pwyslais ar gydnabod a nodi anghenion dysgu a datblygu clinigwyr ar bob lefel a llunio arweinyr y dyfodol. Mae arweinyr tîm yng Nghymru wedi neilltuo amser ar gyfer cymorth cymheiriaid ac mae ystyriaeth ofalus i gynllunio olyniaeth ar draws y rhanbarthau drwy nodi a datblygu unigolion ar gyfer rolau arwain yn y dyfodol. Bydd meddwl ymlaen fel hyn yn cyfrannu at gadw staff gan fod rhagolygon dilyniant gyrfa yn weladwy yn ogystal â hyrwyddo parhad yn y ddarpariaeth gwasanaeth wrth i arweinyr presennol adael.



Myfyrwyr

Anogir lleoliadau myfyrwyr ar draws gwasanaethau EIP yng Nghymru, ac mae'r gweithgaredd o gynnig cyfleoedd lleoli ar draws disgyblaethau yn hybu cysylltiadau â phrifysgolion ac yn caniatáu siapio gweithlu'r dyfodol yng Nghymru. Mae gwerth croesawu myfyrwyr ar leoliad yn cyfrannu at hyrwyddo

gwasanaethau EIP yn barhaus, yn gyfle i ganolbwyntio ar ganfod a thrin yn gynnar ac yn cefnogi symudiad tuag at weithlu iechyd meddwl sy'n canolbwyntio ar ieuencid yn y dyfodol.

Goruchwyliaeth

Goruchwyliaeth yng Nghymru, cydnabyddir pwysigrwydd mynediad i oruchwyliaeth a chefnogaeth cymheiriaid trwy gyfres o gyfarfodydd grŵp cyfoedion a sesiynau myfyrio. Mae'r sesiynau hyn yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau fel clinigwyr EIP ymhellach a rhannu dysgu. Anogir clinigwyr i hwyluso'r rhain eu hunain, gan ddefnyddio'r sgiliau a'r arbenigedd sydd ar gael o fewn y rhwydwaith. Mae Goruchwyliaeth ar gyfer Therapi Teulu Ymddygiadol ac Astudiaethau Achos Seicolegol yn ddau gyfle sydd ar gael i gefnogi myfyrio ac

ymarfer. Mae padlets ar-lein wedi'u creu hefyd i sicrhau mynediad at ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth a rhannu adnoddau'n hawdd rhwng clinigwyr.

Arweinyddiaeth

Mae gwaith tîm arwain effeithiol yn hanfodol er mwyn darparu gofal diogel o safon. Mae'n bwysig mewn EIP bod arweinwyr yn annog cydlyniant tîm, yn cefnogi ac yn galluogi unigolion ac yn creu gwasanaeth sydd wedi'i ymgorffori mewn arloesi a gwella ansawdd (9). Mae arweinyddiaeth dosturiol sy'n eiriol dros glinigwyr ac yn hyrwyddo diwylliant o ddatblygiad proffesiynol yn allweddol o ran

cefnogi iechyd a lles y gweithlu. Mae arweinwyr tosturiol yn edrych ar ôl eu hunain ac yn modelu hunanofal i bobl eraill. Mae gwasanaethau sy'n gwerthfawrogi aelodau fel unigolion yn cyfrannu at ymdeimlad o gyflawniad gwaith, yn lleihau cyfraddau salwch ac yn gwella cadw staff, ac yn y pen draw mae'n hanfodol ar gyfer gofal cleifion o ansawdd uchel.

Cyfeiriad i'r Dyfodol yng Nghymru

Nid yw'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant a gyflwynir yn ddigon ynddo'i hun. Yng Nghymru mae ymgyrch i greu 'diwylliant sy'n dysgu ac yn gwella bob amser' sy'n ceisio defnyddio'r sgiliau a'r arbenigedd o fewn y rhwydwaith i gynnal amgylchedd lle gall clinigwyr ddod at ei gilydd, dysgu a datblygu fel unigolion, ond fel grŵp sy'n rhoi gofod i fod yn arloesol a datblygu gwasanaethau EIP yn greadigol ledled Cymru.

Gellir cyflawni trawsnewid cenedlaethol trwy ddysgu ar draws rhanbarthau gan ddylanwadu ar fodolau cenedlaethol a datblygu gweithlu sy'n gallu cyflawni. Ceir gweledigaeth gyfunol er mwyn gwella profiad a gofal pobl ifanc sydd â seicosis cynnar yng Nghymru.



Mae pob aelod o'r tîm yn cael ei alluogi, ei annog a'i gefnogi i weithio gydag eraill i wella'r gwasanaeth maen nhw'n gweithio ynddo



Mae Cymru wedi ymrwymo i weithlu sy'n

- Gweithio ar draws ffiniau, gan gryfhau a chynnal cysylltiadau â chydweithwyr iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg er budd cefnogi pobl ifanc sydd â seicosis cynnar
- Parhau i ymdrechu tuag at weithlu aml-ddisgyblaethol, gan weithio'n greadigol gydag adnoddau a meddwl am sut i ddatblygu rolau newydd ac ailgynllunio rolau presennol
- Datblygu gwasanaethau sy'n gweithio tuag at gyflawni safonau cenedlaethol ochr yn ochr â chynnwys pobl ifanc yn greadigol mewn gweithgareddau y tu allan i'r pamedrau hyn sy'n cefnogi adferiad
- Cynnal dull integredig drwy greu partneriaeth â sefydliadau 3ydd sector
- Cyd-gynllunio a darparu gwasanaethau ochr yn ochr ag unigolion sydd â phrofiad o fyw, teuluoedd a gofawyr, gan gynnwys rolau mentoriaid cymheiriaid a chyfranogiad wrth recriwtio clinigwyr
- Rhannu datblygiadau arfer arloesol o fewn rhwydwaith EIP Cymru gyfan, wedi'i hwyluso gan Gwelliant Cymru
- Parhau i adeiladu ar raglen ddysgu a datblygu EIP Cymru gyfan ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, gan hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a myfyrio
- Rhoi pwyslais ar ddatblygu'r gweithlu, cefnogaeth a threfniadau goruchwyllo
- Datblygu arweinwyr y dyfodol o fewn y rhwydwaith i sicrhau cynllunio olyniaeth

Bydd hyn yn cael ei gefnogi drwy

- Lunio cynlluniau gweithredu lleol ac amserlenni ar gyfer ehangu gwasanaethau i gwmpasu'r ystod oedran 14-35 ym mhob ardal, gydag ymrwymiad, cynllunio ac adnoddau pellach i gyflawni gweithio gyda phobl 35-65 oed sy'n cefnogi ymgysylltu â'r gweithlu, dadansoddi angen lleol a phwyslais ar ddatblygu sgiliau clinigwyr
- Datblygu llwybrau EIP yn genedlaethol sy'n mapio pwyntiau ymgysylltu ar gyfer clinigwyr ac eglurder ynghylch rolau integredig o fewn timau
- Cefnogaeth barhaus trwy Gwelliant Cymru i hybu hyder a chymhwysedd yn y defnydd o fethodoleg gwella ansawdd wrth ddylunio a datblygu gwasanaethau
- Nodi bylchau lleol yn y seilwaith sy'n effeithio ar effeithlonrwydd y gwasanaeth a ddarperir, e.e. gofod clinigol, offer TG a chodi'r rhain fel risgiau i ansawdd a diogelwch gofal cleifion
- Blaenoriaethu lles y gweithlu EIP yng Nghymru, gan werthfawrogi clinigwyr trwy gefnogi anghenion dysgu unigol a datblygiad proffesiynol
- Sefydlu is-grŵp 'Gweithlu' fel rhan o raglen ffrwd waith EIP Cymru gyfan er mwyn datblygu pecyn dysgu a fframwaith sgiliau ar gyfer clinigwyr, sy'n canolbwyntio ar y gwerthoedd a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gofal EIP o ansawdd uchel

Ystyriaethau ar gyfer gweithlu EIP yn y dyfodol

- Sut mae sicrhau mynediad rheolaidd at hyfforddiant a goruchwyliaeth i glinigwyr i hyfforddi mewn ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yng Nghymru a'u darparu?
- Sut mae sicrhau gwir gydweithio a chyd-gynhyrchu gwasanaethau yng Nghymru?
- Beth yw ein rôl o ran cefnogi'r gweithlu ehangach i gynnal y sgiliau a'r ymwybyddiaeth angenrheidiol o sut i gael cymorth, oherwydd efallai mai nhw yw'r unigolyn cyntaf i ddod i gysylltiad â pherson ifanc sy'n profi symptomau (e.e., gofal sylfaenol, gweithwyr addysg proffesiynol, gwasanaethau cyfiawnder troseddol)?
- A oes gennym ni gyfleoedd i gyfrannu at ymchwil yng Nghymru? Sut gallai hyn fod o fudd i'n gwasanaethau a'n gweithlu?
- Sut ydym yn rheoli datblygiad gwasanaethau i gwmpasu llwybr Risg Cyflwr Meddwl?
- Sut mae Cymru'n denu gweithwyr y dyfodol i weithio ym maes EIP, beth sy'n gwneud gwasanaethau yma'n unigryw?

Atodiad 1

Mae datblygu gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis (EIP) yn dibynnu ar amcangyfrifon epidemiolegol o ansawdd uchel o achosion newydd o Bwl Cyntaf o Seicosis (FEP), yn sail i gynllunio gwasanaethau sydd â digon o adnoddau ac i asesu eu perfformiad wrth ganfod nifer yr achosion a ddisgwylir.

Mae'r tablau canlynol yn dangos niferoedd yr achosion a ragwelir yn ôl bwrdd iechyd. Rhoddir ffigurau ar gyfer y boblogaeth 16-35 sy'n cael eu targedu a'u gwasanaethu gan y rhan fwyaf o wasanaethau EIP ar hyn o bryd ac ar gyfer y boblogaeth 16-65, gan fod darparu EIP ar gyfer y grŵp oedran ehangach hwn yn nod datblygiadol ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru (ac yn arfer safonol yn Lloegr).

Tabl 1. Poblogaeth 16-65, Amcangyfrif o Gyfraddau Amledd ac Amcangyfrif o Niferoedd Achosion yn ôl Bwrdd Iechyd:

	Poblogaeth 16-35	Cyfradd Amledd Blynyddol (fesul 100,000)	Amcangyfrif o Achosion Blynyddol
Aneurin Bevan	133268	39.91	53.2
Betsi Cadwaladr	149548	35.99	53.8
Caerdydd a'r Fro	143935	34.59	49.8
Cwm Taf Morgannwg	103613	40.35	41.8
Hywel Dda	83679	36.47	30.5
Powys	24428	34.86	8.5
Bae Abertawe	95827	37.8	36.2
CYMRU	73,4298	37.28	273.8

Tabl 2. Poblogaeth 16-65, Amcangyfrif o Gyfraddau Amledd ac Amcangyfrif o Niferoedd Achosion yn ôl Bwrdd Iechyd:

	Poblogaeth 16-35	Cyfradd Amledd Blynyddol (fesul 100,000)	Amcangyfrif o Achosion Blynyddol
Aneurin Bevan	365201	25.94	94.7
Betsi Cadwaladr	426259	23.09	98.4
Caerdydd a'r Fro	317012	24.74	78.4
Cwm Taf Morgannwg	277125	26.67	73.9
Hywel Dda	235243	23.52	55.3
Powys	79837	21.15	16.9
Bae Abertawe	243939	25.50	62.2
CYMRU	1,944,616	24.67	479.8

Cyfeiriad:

Jackson, M a Saville, C. (2021) The incidence of First Episodes of Psychosis in Wales: epidemiological estimates, and workforce calculations of EIP resources required. Rhaglen Seicoleg Glinigol Gogledd Cymru, Prifysgol Bangor

Atodiad 2

Cynhyrchir cyfrifiadau gweithlu gan ddefnyddio offeryn algorithmig sydd wedi'i ddefnyddio ledled Lloegr i ddatblygu gwasanaethau i gyrraedd targed Amseroedd Mynediad ac Aros 2016 (NHS England, the Nationa'l Collaborating Centre for Mental Health a National Institute for Health and Care Excellence (2016)), a gynyddodd cwmpas darpariaeth EIP o 16-35 i 16-65 (2).

Bwriad yr offeryn yw amcangyfrif y gofynion ar gyfer Gwasanaeth EIP o ansawdd uchel sydd ag adnoddau digonol i gyflawni safonau y Rhwydwaith Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis (EIPN). Gan ddechrau gyda'r

amcangyfrif o ffigurau digwyddedd a'r boblogaeth, mae'n cyfrifo nifer yr oriau mewnbwn sydd eu hangen fesul achos ar gyfer pob rôl EIP (cydlynedd gofal, gweinyddu ac ati), ac o hyn mae'n cynhyrchu amcangyfrif o'r swyddi sydd eu hangen ar gyfer darparu adnoddau ar gyfer gwasanaeth ar gyfer y boblogaeth benodol hon.

Mae'n cymryd i ystyriaeth yr amser ar gyfer gwyliau blynyddol a hyfforddiant, canllawiau ar gyfer hyd asesiadau ac ymyriadau, a ffactorau pragmatig eraill sy'n effeithio ar gyflwyno EIP.

BIP Aneurin Bevan

Amcangyfrifon gweithlu	16-35	16-65
Rheolwr	1.1	1.9
Gweinyddu	2.2	3.8
Amser Meddygol	1.3	2.3
Cydlynwyr Gofal	10.8	19.2
Therapyddion Therapi Gwybyddol Ymddygiadol	2.4	4.2
Gweithwyr Teulu	0.5	0.9
Gweithwyr Cymorth/Cyfoedion	5.4	9.6

BIP Betsi Cadwaladr

Amcangyfrifon gweithlu	16-35	16-65
Rheolwr	1.2	2.0
Gweinyddu	2.4	4.0
Amser Meddygol	1.4	2.4
Cydlynwyr Gofal	12.1	19.9
Therapyddion Therapi Gwybyddol Ymddygiadol	2.7	4.4
Gweithwyr Teulu	0.6	0.9
Gweithwyr Cymorth/Cyfoedion	6.0	10

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Amcangyfrifon gweithlu	16-35	16-65
Rheolwr	1	1.6
Gweinyddu	2	3.2
Amser Meddygol	1.2	1.9
Cydlynwyr Gofal	10.1	15.9
Therapyddion Therapi Gwybyddol Ymddygiadol	2.2	3.5
Gweithwyr Teulu	0.5	0.7
Gweithwyr Cymorth/Cyfoedion	5.0	7.9

BIP Cwm Taf Morgannwg

Amcangyfrifon gweithlu	16-35	16-65
Rheolwr	0.8	1.5
Gweinyddu	1.6	3.0
Amser Meddygol	1.0	1.8
Cydlynwyr Gofal	8.5	15.0
Therapyddion Therapi Gwybyddol Ymddygiadol	1.9	3.3
Gweithwyr Teulu	0.4	0.7
Gweithwyr Cymorth/Cyfoedion	4.2	7.5

BIP Hywel Dda

Amcangyfrifon gweithlu	16-35	16-65
Rheolwr	0.6	1.1
Gweinyddu	1.2	2.2
Amser Meddygol	0.7	1.3
Cydlynwyr Gofal	6.2	11.2
Therapyddion Therapi Gwybyddol Ymddygiadol	1.4	2.5
Gweithwyr Teulu	0.3	0.5
Gweithwyr Cymorth/Cyfoedion	3.1	5.6

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Amcangyfrifon gweithlu	16-35	16-65
Rheolwr	0.3	0.3
Gweinyddu	0.7	0.7
Amser Meddygol	0.4	0.4
Cydlynwyr Gofal	3.3	3.3
Therapyddion Therapi Gwybyddol Ymddygiadol	0.7	0.7
Gweithwyr Teulu	0.1	0.1
Gweithwyr Cymorth/Cyfoedion	1.6	1.6

D.S. Cynhaliwyd cyfrifon Powys gyda sgôr cymhlethdod dwbl, sydd i bob pwrpas yn dyblu maint y llwyth achosion a ragamcanwyd i ganiatáu ar gyfer yr amser ychwanegol sydd ei angen er mwyn ymdrin ag achosion sydd â dosbarthiad daearyddol llawer ehangach.

BIP Bae Abertawe

Amcangyfrifon gweithlu	16-35	16-65
Rheolwr	0.7	1.3
Gweinyddu	1.5	2.5
Amser Meddygol	0.9	1.5
Cydlynwyr Gofal	7.3	12.6
Therapyddion Therapi Gwybyddol Ymddygiadol	1.6	2.8
Gweithwyr Teulu	0.3	0.6
Gweithwyr Cymorth/Cyfoedion	3.7	6.3

Cyfeiriad:

Jackson, M a Saville, C. (2021) The incidence of First Episodes of Psychosis in Wales: epidemiological estimates, and workforce calculations of EIP resources required. Rhaglen Seicoleg Glinigol Gogledd Cymru, Prifysgol Bangor

Atodiad 3

Canllawiau ar gyfer cwblhau Matrics Aeddfedrwydd EIP

Defnyddir sgôr **COCH AMBR GWYRDD** (RAG) i ddynodi'r statws cyfredol yn erbyn eitemau allweddol. Mae'r matrics aeddfedrwydd yn darparu'r manylion ategol sy'n sail i sgôr gan y gwasanaethau EIP, gan dynnu sylw at resymeg dros gydymffurfio a diffyg cydymffurfio.

Mae offeryn matrics aeddfedrwydd yn nodi themâu cyffredin ar hyd taith wella ac yn amlygu'n gryno'r pethau 'rhaid eu gwneud,' gan roi sicrwydd bod y ffocws ar y blaenoriaethau cywir, ac yn taflu goleuni ar feysydd y mae angen mwy o sylw arnynt.

Mae matrics aeddfedrwydd yn helpu sefydliadau i nodi cryfderau a bylchau allweddol wrth ddarparu gwasanaethau ac yn rhoi trosolwg o gynnydd. Defnyddir matrics aeddfedrwydd ar gyfer cynllunio gwasanaethau ac mae'n ddefnyddiol wrth gyfathrebu â rhanddeiliaid.



	Islaw'r Safon	Cyrraedd y Safon yn Rhannol	Cyrraedd y Safon yn Llawn
Bodloni'r amcangyfrif poblogaeth llwyth achosion EIP ar gyfer y rhanbarth			
Niferoedd llwyth achosion yn bodloni gofyniad EIP (15 achos)			
Cymysgedd sgiliau'r gweithlu yn ateb gofynion gwasanaeth EIP			
Ystod oedran fel y'i diffinnir gan NCAP / LIC – hyd at 65			
Mae darpariaeth EIP yn wasanaeth cydlynu gofal annibynnol tîm amlddisgyblaethol llawn			
Mae EIP mewn ystafelloedd sy'n gyfeillgar i ddefnyddwyr gwasanaeth gyda hunaniaeth			
Asesiad o fewn pythefnos i atgyfeirio			
Hyd seicosis heb ei drin yn cael ei amcangyfrif a'i gofnodi ar gyferpob person			
Gwybodaeth ac addysg yn cael eu darparu i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr			
Y gwasanaeth yn bodloni'r holl ofynion iechyd corfforol ar gyfer EIP			
Y gwasanaeth yn bodloni pob ymyrraeth seicolegol ar gyfer EIP			
Defnyddir offer canlyniadau i gefnogi gwellhad – DIALOG / QPR			
Amrywiaeth o ymyriadau adfer cymdeithasol ar gael: cyflogaeth, addysg, gweithgaredd			
Cydweithio gydag arbenigwyr drwy brofiad gan gynnwys cynllunio gwasanaethau, cyflenwi a recriwtio			
Goruchwyliaeth glinigol ar gael i alluogi ymarfer effeithiol			
Gwasanaeth EIP integredig ar draws CAMHS a gwasanaethau oedolion			
Gwasanaeth EIP yn ymwneud yn bendant â phobl am y tair blynedd a argymhellir			
Llwybr ARMS / CAARMS ar gael			

Cyfeiriadau

- 1 Gwelliant Cymru (2022) Buddsoddi yn y Genhedlaeth Nesaf: Beth sydd angen ei newid ar gyfer pobl sydd â seicosis cynnar sy'n byw yng Nghymru! Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- 2 Implementing the Early Intervention in Psychosis Access and Waiting Time Standard: Guidance (2016) NHS England, the National Collaborating Centre for Mental Health and the National Institute for Health and Care Excellence
- 3 Llywodraeth Cymru (2020) Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru
- 4 Rhwydwaith IRIS, 2012. Canllawiau Rhwydwaith IRIS, <http://www.iris-initiative.org.uk>
- 5 Fowler D, Hodgekins J, Howells L, Millward M, Ivins A, Taylor G, et al. Can targeted early intervention improve functional recovery in psychosis? A historical control evaluation of the effectiveness of different models of early intervention service provision in Norfolk 1998–2007. *Early Intervention in Psychiatry*. 2009;3:282-88.
- 6 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 Llywodraeth Cymru.
- 7 The Royal College of Psychiatrists (2021) Quality Standards for Early Intervention in Psychosis Services (Second Edition) CCQI 373
- 8 Gwelliant Cymru (2021) Tablau Tystiolaeth Matrics Cymru/Matrics Plant. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru
- 9 Dixon-Woods M, Baker R, Charles K et al. (2014) Culture and behaviour in the English National Health Service: overview of lessons from a large multimethod study. *BMJ Qual Saf*, 23(2): 106-15.

Cydnabyddiaethau

Datblygwyd y papur gan dîm Rhaglen EIP Gwelliant Cymru

Diolch i'r gweithlu EIP a'r holl asiantaethau partner sy'n ymwneud â chefnogi gwasanaethau EIP yng Nghymru am eich ymrwymiad, eich angerdd a'ch egni i wella gofal a phrofiadau i bobl ifanc sydd â seicosis cynnar

Diolch i Dr Mike Jackson a'i gydweithwyr am eich gwaith ym Mhrifysgol Bangor ar bennu digwyddedd cyfnodau cyntaf o seicosis yng Nghymru, mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i wasanaethau gyfrifo gofynion y gweithlu ar lefel leol

Diolch arbennig i'r bobl ifanc sy'n ymwneud â'n gwasanaethau sy'n parhau i'n hysbrydoli i gyflawni mwy ar gyfer EIP yng Nghymru

Gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau trwy ymweld â'n gwefan a chofrestru ar gyfer ein e-gylchlythyr misol:

<https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru/>

Gallwch hefyd ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol:

Dilynwch ni ar Twitter [@GwelliantCymru](#)

Cliciwch hoffi ar [Facebook](#)

Tanysgrifiwch i ni ar [YouTube](#)

Cysylltwch â ni ar ein [tudalen LinkedIn](#)

Gwelliant Cymru

Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

© 2023 Gwelliant Cymru

Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023

Mae'r ddogfen hon wedi'i thrwyddedu o dan Creative Commons Attribution-NonCommercial-NoDerivatives 4.0 International (CC BY-NC-ND 4.0). Mae hyn yn caniatáu ar gyfer copïo ac ailddosbarthu'r ddogfen hon cyn belled â bod Gwelliant Cymru yn cael clod a chydnyddiaeth lawn. Ni ddylid ail-lunio, gweddnwid na datblygu'r deunydd mewn unrhyw ffordd. I weld copi o'r drwydded hon, ewch i <https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/>